**Alun Davies AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Cabinet Secretary for Local Government and Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf/Our Ref: MA-P/ARD/0289/18

At:
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru
Heddluoedd Cymru

Copi at:
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru
Prif Gwnstabliaid Heddluoedd Cymru
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd Cymru

31 Ionawr 2018

Annwyl gydweithwyr,

**Setliad Terfynol yr Heddlu 2018-19**

Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu o elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Terfynol yr Heddlu 2018-19 ar gyfer heddluoedd Cymru, yn amodol ar ei gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cadarnhaodd y Swyddfa Gartref y bydd yr holl heddluoedd yng Nghymru yn cael setliad arian gwastad yn 2018-19 o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol. Cyfraniad Llywodraeth Cymru i'r Setliad ar gyfer Cymru yw £140.9 miliwn.

Yn Atodiad A ceir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer yr holl heddluoedd yng Nghymru. Nid yw'r dyraniadau i heddluoedd unigol wedi newid ers y Setliad Dros Dro.

Mae Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2018-19 (Setliad Terfynol – Comisiynwyr Heddlu a Throseddu) a gyhoeddwyd heddiw wedi'i amserlennu i'w drafod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Chwefror 2018.

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd eu hatgoffa y bydd gofynion o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, ac yn benodol y safonau llunio polisi, yn dod i rym ar 30 Mawrth 2017. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb ac effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y llythyr hwn, byddwch cystal â chysylltu â'r Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol drwy LGFPSettlement@llyw.cymru.

**Alun Davies AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services

## Atodiad A: Setliad Terfynol yr Heddlu, 2018-19

### Tabl 1: Asesiad o Wariant Safonol (£m)

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 33.863 | 34.488 | 35.151 | 35.860 |
| Gwent | 50.485 | 51.419 | 52.407 | 53.462 |
| Gogledd Cymru | 48.762 | 49.665 | 50.621 | 51.654 |
| De Cymru | 117.702 | 119.882 | 122.186 | 124.630 |
| Cyfanswm | 250.812 | 255.453 | 260.364 | 265.606 |

### Tabl 2: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 12.788 | 12.895 | 12.870 | 13.101 |
| Gwent | 29.696 | 30.107 | 30.583 | 31.083 |
| Gogledd Cymru | 21.308 | 21.578 | 21.907 | 22.122 |
| De Cymru | 71.218 | 72.177 | 73.341 | 74.594 |
| Cyfanswm | 135.010 | 136.757 | 138.700 | 140.900 |

### Tabl 3: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£m)[1]

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 37.511 | 37.117 | 36.443 | 36.212 |
| Gwent | 43.220 | 42.393 | 40.904 | 40.404 |
| Gogledd Cymru | 51.854 | 51.167 | 49.821 | 49.606 |
| De Cymru | 89.338 | 87.463 | 84.066 | 82.812 |
| Cyfanswm | 221.923 | 218.140 | 211.234 | 209.034 |

### Tabl 4: Cyfanswm Cymorth Canolog (£m)

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 50.299 | 50.012 | 49.313 | 49.313 |
| Gwent | 72.917 | 72.501 | 71.487 | 71.487 |
| Gogledd Cymru | 73.162 | 72.745 | 71.728 | 71.728 |
| De Cymru | 160.555 | 159.639 | 157.407 | 157.407 |
| Cyfanswm | 356.933 | 354.897 | 349.934 | 349.934 |

### Tabl 5: Newid mewn Cyfanswm Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol (%)

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | - | - | - | 0.0% |
| Gwent | - | - | - | 0.0% |
| Gogledd Cymru | - | - | - | 0.0% |
| De Cymru | - | - | - | 0.0% |
| Cyfanswm | - | - | - | 0.0% |

Nodiadau:

[1] Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 o Adroddiad Grant yr Heddlu sy'n cynnwys y dyraniad o dan 'Prif Fformiwla' ac 'Ychwanegu Rheol 1' (colofnau a a b) plws swm y 'cyllid gwaelodol' y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i sicrhau sydd ar gael.